

# Protocol Cerfluniau a Henebion Caerdydd



#### Atebolrwydd ac Ymwadiad:

- Er bod gofal rhesymol wedi'i gymryd wrth baratoi'r ddogfen hon i sicrhau bod y wybodaeth a geir ynddi yn gywir, mae'r ddogfen hon, ei chynnwys, yr enwau, y testun a'r delweddau, wedi'u darparu 'FEL Y MAENT', a heb unrhyw warantau datganedig neu oblygedig o unrhyw fath. I'r graddau eithaf a ganiateir o dan gyfraith y DU, mae Cyngor Dinas a Sir Caerdydd ['Y Cyngor'] yn ymwrthod â phob gwarant, boed yn warant ddatganedig neu oblygedig, yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i warantau goblygedig o ofal rhesymol, ansawdd boddhaol neu addasrwydd i ddiben penodol ac na thorrir unrhyw reolau.
- Mae'r ddogfen yn cynnwys canllawiau a nodiadau ar agweddau penodol ar y gyfraith fel y gallant effeithio ar yr unigolyn cyffredin. Bwriedir iddynt ddarparu gwybodaeth gyffredinol yn unig, ac nid ydynt yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol na chyngor proffesiynol arall. Ni ddylid dibynnu ar y wybodaeth yn sail i unrhyw benderfyniad neu weithred gyfreithiol. Ni all y Cyngor dderbyn atebolrwydd am unrhyw golled sy'n deillio o ddibynnu ar gynnwys y ddogfen hon. Mae'r gyfraith yn newid yn barhaus, felly dylid ceisio cyngor arbenigol bob amser.
- I'r graddau a ganiateir gan gyfreithiau cymwys, ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd am unrhyw golled neu ddifrod uniongyrchol, anuniongyrchol, damweiniol, arbennig na chanlyniadol i unrhyw ddefnyddiwr (pa un yw'n codi mewn contract, camwedd, yn cynnwys esgeulustod, neu fel arall) sy'n deillio o ddefnyddio'r ddogfen hon neu mewn perthynas â'r defnydd ohoni.
- Ni fydd cynnwys y ddogfen hon yn llyffetheirio'r Cyngor wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau statudol, yn cynnwys, heb gyfyngiad i gyffredinolrwydd yr uchod, ei swyddogaethau fel Awdurdod Cynllunio Lleol neu Awdurdod Priffyrdd Lleol.

#### Map Sylfaenol OS:

- © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfeydd data [2016] Arolwg Ordnans 100023376

#### Llun ar y Clawr:

- Cerflun o Ivor Novello, Plas Roald Dahl, 2009, Peter Nicholas. (Pob llun © Cyngor Caerdydd)

## 1. Cyflwyniad:

- 1.1. Nod y Protocol hwn yw egluro gweithdrefn y Cyngor ar gyfer asesu cynigion i osod cerfluniau a henebion yng Nghaerdydd.
- 1.2. Mae'r Cyngor yn awyddus i annog enghreifftiau o gelf gyhoeddus o ansawdd uchel ac sydd wedi'u lleoli'n briodol, ond mae angen iddo sicrhau nad yw tir y cyhoedd yn cael ei orlenwi â gweithiau celf sydd â chysylltiad uniongyrchol cyfyngedig â'r ddinas.
- 1.3. Mae'r Protocol yn nodi y bydd cynnig i godi cerflun neu heneb yn cynnwys materion ychwanegol (megis gosod a chynnal a chadw) a all olygu bod cyfanswm cost project yn sylweddol fwy na chost comisiynu'r gwaith celf ei hun, ac y bydd angen eu hystyried yn llawn ar ddechrau project. Mae hefyd yn rhoi canllawiau ar yr amserlenni y dylid eu dilyn ar gyfer cael caniatâd cynllunio a chydysyniadau angenrheidiol eraill.

## 2. Cefndir:

- 2.1. Mae Caerdydd yn cynnwys dros 200 o weithiau celf gyhoeddus sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at bensaerniaeth a threftadaeth ddiwylliannol y ddinas.
- 2.2. Mae'r Cyngor yn aml yn cael ymholiadau gan bobl a sefydliadau sy'n awyddus i goffáu unigolion, grwpiau a digwyddiadau hanesyddol yng Nghaerdydd. Yn anffodus, nid yw'n bosibl bodloni'r holl geisiadau hyn, ac mae angen i gynigion gael eu hystyried yng nghyd-destun y materion canlynol:
  - Bod safleoedd addas yng Nghaerdydd yn brin iawn, a bod angen i gynigion unigol gael eu hasesu'n ofalus mewn perthynas â chymeriad, gosodiad a gofynion gweithredol presennol lleoliadau posibl, ynghyd â'u gofynion gweithredol yn y dyfodol.
  - Er bod y Cyngor yn awyddus i annog enghreifftiau o gelf gyhoeddus o ansawdd uchel ac sydd wedi'u lleoli'n briodol, bod angen iddo sicrhau nad yw tir y cyhoedd yn cael ei orlenwi â gwaith celf sydd â chysylltiad uniongyrchol cyfyngedig â'r ddinas.
- 2.3. Mae profiad blaenorol wedi dangos bod gweithredu project, yn cynnwys sicrhau cytundeb i fwrw ymlaen â chynnig, dod o hyd i safle priodol, datblygu dyluniad derbyniol a sicrhau'r cyllid angenrheidiol, yn gallu cynnwys negodiadau hir a chymhleth. Hefyd, gall materion ychwanegol megis costau gosod, tirlunio a chostau cynnal a chadw yn y dyfodol olygu bod cyfanswm y gyllideb sy'n ofynnol ar gyfer project yn sylweddol fwy na chost comisiynu'r gwaith celf ei hun. Un o nodau'r protocol hwn yw nodi'r materion hyn o'r cychwyn, fel bod grwpiau ac unigolion yn gallu bod yn glir ynghylch eu goblygiadau a'r amserlenni tebygol dan sylw.

## 3. Penderfynu ar addasrwydd cynigion

- 3.1. Er ein bod yn cydnabod y bydd pob cynnig a gyflwynir i'r Cyngor yn arwyddocaol iawn i'r grwpiau a'r unigolion dan sylw, mae angen sicrhau bod gweithiau celf yn ymwneud â Chaerdydd, a'u bod yn addas i gael eu lleoli mewn safleoedd penodol, er mwyn sicrhau nad yw tir y cyhoedd yn cael ei orlenwi â chomisiynau sydd â chysylltiad uniongyrchol cyfyngedig â'r ddinas.
- 3.2. Mae'r Cyngor fel arfer yn ei gwneud yn ofynnol i gerfluniau a henebion fod â chysylltiad hanesyddol â'u lleoliad arfaethedig. Bydd yn rhaid i gynigion gael eu hadnabod yn rhai o ansawdd/safon uchel, a bydd y Cyngor yn awyddus i sicrhau y bydd ffurf a gosodiad y gwaith celf yn ategu cymeriad ac ymddangosiad y ddinas.

## 4. Polisi

- 4.1. Ystyrir cynigion ar gyfer cerfluniau a henebion yng nghyd-destun Polisi KP5 (Dyluniad Cynaliadwy o Ansawdd Da), sy'n rhan o Gynllun Datblygu Lleol Caerdydd 2006-2026. Rhoddir canllawiau pellach yn Strategaeth Celf Gyhoeddus Caerdydd (2005) a Chanllawiau Cynllunio Atodol Celf Gyhoeddus Caerdydd (2006), y gellir eu gweld/lawrlwytho o [www.cardiff.gov.uk/citydesign](http://www.cardiff.gov.uk/citydesign).

## 5. [Safleoedd Addas](#)

- 5.1. Mae cynigion ar gyfer Cerfluniau a Henebion yng Nghaerdydd wedi tueddu i ganolbwyntio ar leoliadau yng nghanol y ddinas a Bae Caerdydd. Fodd bynnag, mae safleoedd addas yn gyfyngedig iawn. Cynhaliwyd arolwg o'r gweithiau celf presennol yn yr ardaloedd hyn (gweler Map 1), ac mae clustogfa wedi'i chymhwyso at bob darn o gelf, er mwyn helpu i sicrhau nad yw ardaloedd yn cael eu gorlenwi â chomisiynau newydd. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw gynigion o fewn yr ardaloedd hyn yn cael eu cefnogi, a dylid ystyried a allai fod yn fwy priodol coffáu cynnig mewn rhan arall o Gaerdydd, neu mewn ffordd amgen. Ni chaiff cynigion ar gyfer cerfluniau a henebion y tu allan i Neuadd y Ddinas yn y Ganolfan Ddinesig a'r Senedd ym Mae Caerdydd eu cefnogi.
- 5.2. Yn ogystal â chymeriad a gosodiad lleoliad, mae angen rhoi ystyriaeth hefyd i ofynion gweithredol presennol ardal, yn ogystal â'i gofynion gweithredol yn y dyfodol, yn cynnwys llwybrau mynediad ar gyfer cerbydau cyflenwi/gwasanaeth a'r defnydd o fannau cyhoeddus ar gyfer digwyddiadau dros dro/tymhorol, a all olygu bod lleoliadau posibl yn annichonadwy.
- 5.3. Nid yw'r holl ardaloedd i gerddwyr yn eiddo i'r Cyngor, a chyn i safle gael ei ddewis, dylai comisiynwyr wneud yr holl ymholiadau perthnasol i bennu a ellid lleoli gwaith celf yn y lleoliad a gynigir.

## 6. [Cyllid Project a Chyfrifoldebau Rheoli/Cynnal a Chadw](#)

- 6.1. Bydd y Cyngor yn awyddus i sicrhau y gallwch ariannu costau cyfan y project ac y byddwch yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnal a chadw'r gwaith celf ac unrhyw waith tirlunio cysylltiedig am byth, ac yn unol â manyleb y cytunir arni gan y Cyngor.
- 6.2. Gall costau gosod a thirlunio gweithiau celf fod yn uchel, yn enwedig lle bo angen addasu gwaith tirlunio caled. Bydd angen i unrhyw waith i'r briffordd gael ei wneud gan gwmni neu unigolyn sy'n meddu ar achrediad gwaith stryd, ac yn unol â Manylebau Priffyrdd y Cyngor.
- 6.3. Disgwylir y bydd y cerflun/heneb yn eiddo i'r comisiynydd, ac y bydd yn cael ei yswirio/hyswirio a'i gynnal a'i gadw/chynnal a'i chadw gan y Comisiynydd, a bydd yn ofynnol i chi ymrwymo i gytundeb cyfreithiol â'r Cyngor mewn perthynas â'r materion hyn cyn i'r datblygiad ddechrau.
- 6.4. O dan amgylchiadau lle bo'r Cyngor yn cytuno i gynnal a chadw gwaith celf, bydd yn ofynnol i'r comisiynydd ddarparu swm cynnal a chadw gohiriedig i dalu'r costau cysylltiedig cyn i'r datblygiad ddechrau. Bydd gwerth swm gohiriedig yn dibynnu ar y dyluniad penodol (maint/y deunyddiau a ddefnyddir) a lleoliad y cerflun/heneb. Er enghraifft, byddai isafswm cost ffigwr maint cywir efydd wedi'i leoli ar lefel stryd (h.y. heb blinth) oddeutu £12,500 (heb gynnwys TAW). Bydd angen cael caniatâd ysgrifenedig gan y Cyngor ei fod yn cytuno i fabwysiadu gwaith celf cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio, a bydd angen i chi gadarnhau eich ymrwymiad i dalu'r costau hyn pan fyddwch yn gwneud cais am Ganiatâd Cynllunio.

## 7. [Amserlenni:](#)

- 7.1. Dylech gysylltu â'r Cyngor yn gynnar er mwyn canfod a yw eich cynnig yn debygol o gael ei gefnogi (gweler paragraff 8) ac yn sicr cyn comisiynu artist neu gerflunydd i greu dyluniad ar gyfer safle.
- 7.2. Gall cael cytundeb ar gyfer project penodol, dod o hyd i safle priodol, datblygu dyluniad a sicrhau'r cyllid angenrheidiol gynnwys negodiadau hir a chymhleth, gwaith ymgynghori a chodi arian. Felly, mae'n bwysig eich bod yn caniatáu amserlen ymarferol ar gyfer eich project, yn enwedig lle bo cerflun neu heneb arfaethedig yn gysylltiedig â phen-blwydd neu ddigwyddiad penodol.
- 7.3. Mae profiad blaenorol wedi dangos y dylech fel arfer ganiatáu o leiaf flwyddyn i ddatblygu syniad i gam lle mae'n briodol gwneud cais am ganiatâd cynllunio neu gydsyniadau perthnasol eraill.

## 8. Cyflwyno Cynnig Drafft\*

- 8.1. Dylai cynnig drafft ar gyfer cerfluniau neu henebion sydd wedi ystyried cynnwys y protocol hwn, ac yr ystyrir eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd, gael eu hanfon i flwch post celf gyhoeddus y Cyngor yn [publicart@cardiff.gov.uk](mailto:publicart@cardiff.gov.uk).
- 8.2. Dylai cyflwyniadau gynnwys y wybodaeth ganlynol:
  - Manylion y cerflun/yr heneb a gynigir a sut y mae'n ymwneud â Chaerdydd,
  - Safbwyntiau cychwynnol ar raddfa/ddyluniad/y deunyddiau a ddefnyddir,
  - Meddyliau cychwynnol ynghylch lleoliadau posibl/dewisol,
  - Manylion o ran sut y caiff y gwaith celf ei ariannu,
  - Manylion ynghylch rheoli, cynnal a chadw a chyllid cysylltiedig,
  - Taliad ar gyfer ffi gysylltiedig.
- 8.3. Ar ôl i'r cynnig ddod i law, caiff ei ystyried gan Banel Cyngori ar Gelf Gyhoeddus y Cyngor. Yna caiff yr ymgeisydd ei hysbysu am y penderfyniad i gefnogi neu wrthod y cynnig hwnnw.
- 8.4. Dylai ymgeiswyr ganiatáu tua 8 wythnos rhwng cyflwyno cynnig a chael penderfyniad dilynol. O dan amgylchiadau lle caiff cynnig ei gefnogi, bydd y comisiynydd yn cael manylion swyddog cyswllt yn y Cyngor, a bydd cyfarfod yn cael ei drefnu i drafod y ffordd ymlaen.
- 8.5. \*Bydd y cyngor uchod yn cael ei roi heb effeithio ar unrhyw ganiatadau/cydsyniadau yn y dyfodol. Ni fydd hysbysiad o dderbynioldeb cychwynnol cynnig yn caniatáu i waith ddechrau ar y project, a bydd angen i'r comisiynydd wedyn fynd ati i sicrhau'r holl ganiatadau/cydsyniadau perthnasol a fydd yn ofynnol (e.e. caniatâd cynllunio).

## 9. Caniatâd Cynllunio a Chydsyniadau eraill:


- 9.1. Fel arfer, bydd caniatâd cynllunio yn ofynnol i godi cerflun neu heneb. At hynny, os bydd y cynnig yn cynnwys unrhyw waith i adeilad rhestredig, yna bydd caniatâd adeilad rhestredig yn ofynnol hefyd. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen caniatâd o dan ddeddfwriaeth arall hefyd, er enghraifft o dan Ddeddf Priffyrdd 1980.
- 9.2. Pan fydd y Comisiynydd wedi cael cadarnhad bod cerflun/heneb arfaethedig yn dderbyniol (mewn egwyddor), a phan fydd ffurf, lleoliad a'r gwaith o gynnal a chadw'r gwaith celf yn y dyfodol wedi'i sefydlu, gallwch wneud eich cais/ceisiadau ffurfiol am ganiatâd. Dylai hyn gael ei gefnogi gan:
  - A. Ffurflen gais/ffurflenni cais a ffi.
  - B. Cynllun lleoliad safle (1:1250).
  - C. Cynllun safle (1:200) sy'n dangos y cynnig mewn perthynas ag adeiladau cyfagos a phalmentydd ac ati.
  - D. Gweddlluniau ac adrannau graddedig o'r gwaith celf ac, os yw hynny'n berthnasol, ei sylfaen neu blinth (o leiaf 1:50).
  - E. Montage o luniau sy'n dangos y cynnig yn ei gyd-destun.
  - F. Datganiad ysgrifenedig sy'n cynnwys manylion am y cysylltiad hanesyddol neu gysylltiad penodol arall rhwng y safle a'r gwrthrych.
  - G. Rhestr o'r gwaith a'r deunyddiau arfaethedig, ynghyd ag eglurhad ysgrifenedig sy'n nodi pam mae'r cysyniad wedi'i wireddu yn y ffurf benodol a gynigir.
  - H. Manylion unrhyw arysgif(au).
  - I. Manylion unrhyw waith tirlunio cysylltiedig, yn cynnwys gwaith i'r briffordd a chadarnhad y byddwch yn talu'r costau hyn.
  - J. Datganiad sy'n nodi'r trefniadau (a'r cyllidebau) arfaethedig ar gyfer cynnal a chadw'r gwaith celf a'r tirlunio cysylltiedig, a hynny am byth.
  - K. Cadarnhad, lle bo'n berthnasol, eich bod yn barod i ymrwymo i gytundeb(au) cyfreithiol â'r Cyngor mewn perthynas â thirlunio, gwaith i'r briffordd a chynnal a chadw.

- 9.3. Caiff ceisiadau cynllunio eu hysbysebu ar y safle ac yn y wasg. Hefyd, maent yn destun ymgynghoriad â phartïon eraill â diddordeb, yn cynnwys cymdogion ac ymgynghoreion allanol, fel y bo'n briodol. Mae'n bosibl y bydd angen trafod a mireinio eich cynnig ymhellach yng ngoleuni'r ymgynghoriadau hyn.

## 10. [Datgomisiynu/Adleoli/Teyrngedau Blodau](#)

- 10.1. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i adleoli neu ddatgomisiynu cerfluniau/henebion lle bo'r angen yn codi. Byddai hyn yn cael ei wneud mewn ymgynghoriad â chomisiynydd y darn.
- 10.2. Os bydd y comisiynydd gwreiddiol yn ceisio symud cerflun neu heneb, bydd disgwyl iddo dalu'r holl gostau rhesymol sy'n gysylltiedig â symud y darn, yn ogystal ag adfer y tir i'w gyflwr gwreiddiol.
- 10.3. Er mwyn cynorthwyo â gwaith rheoli/glanhau strydoedd, ni chaniateir addurniadau a theyrngedau blodau ar gerfluniau a henebion, ac eithrio ar ddiwrnodau digwyddiadau/seremonïau y cytunir arnynt yn ysgrifenedig â'r Cyngor cyn y digwyddiad.





Map 1: Clustogfeydd Celf Gyhoeddus Canol y Ddinas a Bae Caerdydd

